Gwybodaeth i fudiadau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru

# Rheolaeth Ymarferol ar Glymog Japan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Os hoffech ddarllen gwybodaeth mwy cyffredinol am glymog Japan, cliciwch yma. Mae'r daflen hon yn esbonio'r hyn y bydd angen ichi ei ystyried wrth gynnal prosiect i reoli clymog Japan a chlymogau goresgynnol eraill.

## Pwy sy'n gyfrifol?

Perchennog y tir sy'n gyfrifol am reoli clymog Japan bron bob tro, ond gall lesiwr y tir fod yn gyfrifol weithiau hefyd. Os nad ydych chi'n gwybod pwy sy'n berchen y tir, cysylltwch â'r Gofrestrfa Dir.

Nid oes gorfodaeth ar berchenogion tir i reoli'r clymog Japan a chlymogau eraill sy'n tyfu ar eu tir.  Ond mae plannu planhigyn goresgynnol neu ganiatáu iddo dyfu yn y gwyllt yn drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.  Mae'r pethau y gallwch eu gwneud i ganiatáu iddo ledaenu yn cynnwys dympio deunydd (e.e. pridd a thorion porfa) â'r clymog ynddo a thocio, strimio a ffustio tyfiant ar wyneb y tir.  Os bydd y clymog sy'n tyfu ar eich tir chi yn lledaenu i dir cymydog, gellid dod ag achos preifat am greu niwsans yn eich erbyn.

Hefyd, os bydd unigolyn yn ymddwyn mewn ffordd afresymol gyson a allai gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl eraill yn y gymdogaeth, e.e. caniatáu i glymog Japan dyfu allan o reolaeth, mae gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol yr hawl i roi Hysbysiad Gwarchod y Gymuned o dan Ddeddf Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.  Cewch fwy o wybodaeth yma.

## Pam rheoli clymog Japan?

Mae clymog Japan yn blanhigyn cystadleuol sy'n byw'n hir (planhigyn lluosflwydd sy'n ffurfio rhisomau) ac yn mygu planhigion eraill.  Trwy dyfu'n gyflym ar ddechrau'r tymor tyfu i greu canopi trwchus clos, mae'n cau planhigion brodorol rhag y goleuni. Ar ddiwedd y tymor, mae dail a choesau'r glymog yn pydru'n haenen drwchus ar y pridd gan rwystro planhigion brodorol rhag blaguro.

Trwy dyfu mor frwd, mae'n cael effeithiau andwyol ar yr ecoleg, gan gynnwys:

- **Dwyn cynefin a gostwng ei ansawdd –** yn lleihau'r amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid, yn newid cyflwr y pridd ac yn lleihau gwasanaethau ecosystem.
- **Newid a dirywio cynefin –** effeithiau andwyol uniongyrchol ar weoedd bwyd y tir a dŵr croyw. Mae clymog goresgynnol yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol drwg hefyd.
- **Costau rheoli uchel –** tua £8.8 miliwn y flwyddyn a mwy yng Nghymru'n unig.
- **Gwerth eiddo –** gall presenoldeb y clymog ostwng gwerth eiddo a'i gwneud hi'n anodd cael morgais.
- **Ddim yn rhwymo pridd –** nid yw rhisomau (gwreiddiau) y clymog yn rhwymo'r pridd cystal â gwreiddiau planhigion brodorol, gan gynyddu'r perygl o dirlithriadau ac erydu.
- **Cyfyngu mynediad –** gall y tyfiant trwchus rwystro pobl rhag mynd i diroedd amwynder (e.e. cau glennydd afonydd rhag pysgotwyr).
- **Achosion llys –** mae achosion llys diweddar yn dangos y gellir dwyn achosion sifil a throseddol am adael i glymog Japan a chlymogau eraill dyfu.

## Tystysgrifau contractwyr

Wrth chwilio am gontractwr, rydym yn argymell bod ganddynt y tystysgrifau canlynol:

- Aelod o'r Amenity Forum
- Cofrestr broffesiynol BASIS
- Cofrestr hyfforddiant amwynderau BASIS
- Cofrestr Broffesiynol 'Nominated Storekeeper' (NSK) BASIS

Rydym yn argymell hefyd eich bod yn dewis rhywun sy'n aelod o'r cymdeithasau canlynol:

- Property Care Association (PCA)
- Invasive Non-Native Specialists Association (INNSA)



## Cynllunio'ch prosiect

### *Dewis eich amcanion*

Cyn dechrau ar eich prosiect, meddyliwch yn galed sut bydd eich grŵp am fynd ati.  Fel arfer, amcanion y prosiect fydd:

- Rheoli clymog Japan a'i gadw dan reolaeth yn y tymor hir trwy ddefnyddio chwynladdwr
- Rhwystro'r clymog rhag lledaenu ymhellach trwy ei drin a'i reoli'n effeithiol
- Lleihau difrod y clymog i'r ecoleg a chyfyngu hefyd ar effeithiau'r driniaeth yn ardal y prosiect

I wireddu'r amcanion hyn, ystyriwch y canlynol cyn dechrau'r prosiect:

- **Adnoddau'r prosiect –** pa adnoddau sydd gennych i gynnal y prosiect? Faint o arian sydd gennych ac am faint y bydd yn para? A oes gennych wirfoddolwyr sydd wedi cael hyfforddiant addas i ddefnyddio'r chwynladdwr? Rhaid meddwl am y pethau hyn er mwyn gallu cynllunio a chynnal y prosiect yn effeithiol.
- **Maint y prosiect –** mae maint y prosiect yn ystyriaeth bwysig iawn. Bydd ceisio trin darn mawr o dir yn waith corfforol galed a dim ond cyfnod byr sydd gennych i drin y clymog â glyffosad (Mehefin – Hydref, gan ddibynnu ar y tywydd). Faint gallwch chi ei wneud yn yr amser hwnnw? **Mae'n well blaenoriaethu darn bychan o glymog na cheisio rhannu adnoddau'r prosiect yn rhy denau.**
- **Deall ardal y prosiect –** mae'n bwysig eich bod yn ystyried maint a nifer y lleiniau o glymog y byddwch yn eu trin – efallai y dylech gynnal arolwg os nad ydych yn gwybod faint o glymog sy'n tyfu yn ardal y prosiect.  Ond weithiau, bydd yr ardal ble mae'r clymog yn tyfu ynddi yn un adnabyddus neu efallai y bydd mwy o glymog nag y gallwch ei reoli mewn un neu ddau dymor; bryd hynny gallai fod yn syniad da gwneud map o'r clymog wrth ichi ei drin i arbed amser a chostau llafur.
- **Llwybrau lledaenu a gwasgaru'r clymog –** waeth beth yw maint eich prosiect, ceisiwch ddeall sut mae'r clymog yn lledaenu yn ardal eich prosiect (e.e. llwybrau) a meddyliwch hefyd sut y mae'n cyrraedd o ardaloedd eraill (e.e. tir sy'n ffinio, afonydd ac ati).  Rhowch flaenoriaeth i drin y mannau lle mae'r clymog yn lledaenu'n gyflym a/neu'n cyrraedd ardal eich prosiect.
- **Blaenoriaethu a threfnu triniaeth –** mae'n bwysig penderfynu faint o glymog y byddwch am ei drin er mwyn blaenoriaethu a threfnu'r gwaith gan y gallai fod angen cymaint â 3-5 mlynedd i gael rheolaeth ar leiniau mwy (mwy na 100m2) gan ddefnyddio chwynladdwr a bydd angen eu trin yn gyson dros y cyfnod hwn.  Peidiwch â rhannu'ch adnoddau'n rhy denau – byddai'n well cael rheolaeth dda ar ambell i lain na thrin llawer o leiniau am rhy ychydig o amser. Lle medrwch, rhowch flaenoriaeth i leiniau uwch i fyny'r afon a lle mae'r traffig yn drwm i osgoi rhagor o aflonyddu a lledaenu.

### *Iechyd a Diogelwch*

Mae clymog yn tyfu'n aml ar lannau afonydd a mannau eraill sy'n anodd eu cyrraedd. Cynhaliwch asesiad risg a diogelwch er mwyn deall y risgiau. Byddwch yn ofalus wrth fynd at y lleiniau anodd eu cyrraedd i'w hasesu a'u trin gan y gall tyfiant trwchus guddio tir anwastad a phethau all eich baglu a gall tir gwlyb fod yn llithrig iawn.

### *Bioddiogelwch*

Pam mae bioddiogelwch yn bwysig? Yr ateb syml yw am nad ydych am wneud sefyllfa ddrwg yn waeth! Mae bioddiogelwch yn ffordd i leihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau, plâu a chlefydau estron goresgynnol.  Bydd angen ichi baratoi asesiad a chynllun bioddiogelwch gan fod y clymog yn gallu lledaenu o ddarnau bychain o risom; a gallech eu cludo yn y peiriannau, eich cerbydau a hyd yn oed eich esgidiau.

Dylech o leiaf ddilyn y cyngor bioddiogelwch sylfaenol:

- Gofalwch fod eich esgidiau a'ch cerbyd yn lân pan fyddwch yn cyrraedd y safle.
- Gofalwch fod eich esgidiau'n lân (heb bridd na deunydd gweladwy) cyn gadael y safle.
- Gofalwch eich bod yn cadw'ch cerbyd yn lân – cliriwch yn enwedig unrhyw fwd allai fod wedi crynhoi.
- Defnyddiwch y cyfleusterau ar y safle i lanhau'ch esgidiau/offer.
- Ceisiwch gadw pobl draw o'r safle.
- Os medrwch, peidiwch â mynd â cherbydau i'r safle, cadwch at hen lwybrau a pharciwch eich cerbydau ar safleoedd caled.
- Os medrwch, peidiwch â mynd i lefydd lle mae yna dda byw a chlefydau planhigion.
- Cynlluniwch eich ymweliadau fel taw'r ymweliad olaf yw'r un sydd â mwyaf o risg iddo.

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am fioddiogelwch, cliciwch ar y ddolen i wefan yr NNSS.

### *Arolygon*

Rydym yn eich cynghori i gadw cofnod o'r canlynol:

- Dyddiadau'r arolygon a'r driniaeth
- Enw'r arolygydd
- Lleoliad – cofnodwch leiniau clymog ar fap (electronig os medrir) i'ch helpu i flaenoriaethu'r driniaeth a rheoli'r dôs dros amser.
- Ffotograffau digidol blynyddol o'r lleiniau i asesu llwyddiant y gwaith
- Arwynebedd bras pob llain – crëwch 3 neu fwy o gategorïau maint i'ch helpu i gynllunio'r gwaith trin (e.e. Categori 1 = 1-25$m^2$, Categori 2 = 25-100$m^2$, Categori 3 = mwy na 100$m^2$)
- Rhowch god (e.e. JK001) i bob llain
- Disgrifiad bras o drwch pob llain (e.e. 'trwchus – ger yr heol' neu 'tyfiant tenau, o dan goed')
- Pa mor agos mae cyrsiau dŵr
- Gwybodaeth am berchennog y tir
- Disgrifiad o'r tir a'r math o gynefin
- Rhediad y tir sy'n cael ei drin a'r cyffiniau
- Nodiadau am y safle – unrhyw nodiadau arbennig neu fesurau sy'n cael eu hargymell.

## Cynnal y project

### *Profion IPM ar glymog goresgynnol*

Yn 2018, cyhoeddodd Jones et al y set gyntaf o ganlyniadau'r treialon maes mwyaf yn y byd ar reoli clymog Japan, gan ddefnyddio'r broses Rheoli Plâu Integredig (IPM). Cafodd pob triniaeth ymarferol, heblaw am ddulliau rheoli a lliniaru/difa biolegol eu profi dros gyfnod o dair blynedd. Defnyddiwyd yr ymchwil i baratoi'r cyngor hwn ar reoli clymog Japan.

Mae'r wybodaeth a'r argymhellion isod yn berthnasol ar gyfer rheoli pob math o glymog goresgynnol yng Nghymru (clymog Japan, y corglymog, y clymog mawr a chlymog Bohemia (hybrid).

Cafodd dulliau corfforol a chemegol eu profi i geisio cael hyd i'r ffordd orau o safbwynt yr amgylchedd a chostau i reoli'r clymog. **Er mai nod proses IPM yw osgoi defnyddio plaladdwyr, os nad oes ffordd arall effeithiol, caniateir defnyddio ychydig o chwynladdwr.**

Rydym yn trafod dulliau rheoli IPM a'r canlyniadau isod i'ch helpu i ddewis y dull mwyaf addas ar gyfer eich prosiect chi:

1. **Corfforol –** e.e. trin i pridd i rwystro chwyn rhag cydio.
2. **Biolegol –** bioreolaeth neu fiochwynladdwyr.
3. **Cemegol –** chwynladdwyr neu gynnyrch amddiffyn planhigion (PPPs).
4. **Integredig –** systemau cwbl integredig sy'n cyfuno dulliau diwylliannol, corfforol, biolegol a/neu gemegol; mae systemau chwynladdwyr integredig yn defnyddio amrywiaeth o chwynladdwyr i reoli gwahanol fathau o chwyn sydd ag ymwrthedd.

### *Corfforol*

- Dros 3 blynedd y treialon, ni welodd Jones et al. (2018) yr un dull corfforol oedd yn effeithiol yn erbyn y clymog – nid yw difa'r tyfiant uwchlaw'r ddaear yn debygol o amharu ar gronfeydd egni'r rhisomau o dan ddaear am ddegawdau.
- Mae dulliau corfforol yn debygol o arwain at ledaenu'r tyfiant dan ddaear a/neu wasgaru darnau o glymog uwchlaw'r ddaear.
- Mae dulliau corfforol yn cynnwys: torri gan ddefnyddio offer llaw, strimiwr, peiriant lladd gwair, ffust a thrasiwr; tynnu â llaw; gorchuddio wyneb y pridd â geodecstil/geofeinwe; compostio, llosgi a phalu'r gwreiddiau â llaw. **Mae pob un yn debygol o arwain at ei ledaenu.**
- Os bydd y clymog yn lledaenu neu'n gwasgaru ar dir cymydog yn sgil cynnal triniaethau aneffeithiol, **gellid dwyn achos troseddol neu sifil yn eich erbyn.**

### *Biological*

- Mae ymchwil flaenorol wedi profi nad yw pori yn ddull effeithiol o reoli'r clymog. Fel y dulliau corfforol, bydd angen degawdau o bori i amharu ar gronfeydd egni'r rhisomau.
- Byddai'n anodd defnyddio da byw yn ddiogel mewn llawer sefyllfa a bydd y da byw'n debygol o gludo planhigion wrth fwydo, gan eu lledaenu ymhellach.
- Bioreolaeth – hyd yma, nid oes data wedi'u cyhoeddi am effeithiolrwydd y psyllid *Aphalara itadori* a ryddhawyd gan CABI yn 2010.
- Biochwynladdwyr – mae CABI yn datblygu biochwynladdwr sy'n defnyddio y ffwng malltod dail *Mycosphaerella polygoni-cuspidati*; ni fydd unrhyw gynnyrch a ddaw o'r treialon a'i gofrestru yn y DU yn debygol o fod yn barod am rai blynyddoedd.



| Amseriad cyfnodau tyfu a thrin y clymog | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
| Cyfnodau tyfu bras – gan ddibynnu ar rywogaeth, tywydd ac uchder y tir | | | | | | | | | | | | |
| Blagur yn datblygu | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | |
| Tyfiant y coesyn | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | |
| Dail gwyrdd | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Blodau | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | |
| Gwywo | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | |
| Cwsg | ■ | ■ | | | | | | | | | ■ | ■ |
| Rhoi triniaeth – chwynladdwr glyffosad | | | | | | | | | | | | |
| Ar y dail bob 6 mis | | | | | | Triniaeth gyntaf | ■ | Ail driniaeth | ■ | ■ | | |
| Chwistrellu'r coesyn | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | |
| Ar y dail bob 12 mis | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | |

## *Cemegol*

- Os bydd y clymog yn lledaenu neu'n gwasgaru ar dir cymydog yn sgil cynnal triniaethau aneffeithiol, **gellid dwyn achos troseddol neu sifil yn eich erbyn.**
- Mae ymchwil Jones et al. (2018) yn dangos o'r holl chwynladdwyr sydd ar gael, glyffosad yw'r un mwyaf effeithiol ar gyfer rheoli'r clymog, ond dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn, hynny yw o ganol yr haf tan ddiwedd hydref (gan ddibynnu ar y tywydd). Dyna pryd y mae'r maeth yn cael ei dynnu i lawr o'r dail uwchlaw'r ddaear i'r rhisomau. O'i roi yn gynharach yn y flwyddyn, ni fyddai'r chwynladdwr yn cael ei gario i'r rhisomau ac ni châi fawr o effaith os o gwbl ar y tyfiant uwchlaw'r ddaear mewn blynyddoedd diweddarach.
- Roedd y tair triniaeth isod dipyn yn fwy llwyddiannus na'r holl ddulliau eraill a brofwyd:

1. **Ar y dail bob chwe mis –** rhoi hanner y mwyaf a ganiateir (gweler label y cynnyrch) ddwywaith y flwyddyn.
2. **Chwistrellu'r coesyn –** chwistrellu cymaint ag a ganiateir (gweler label y cynnyrch) i'r coesyn unwaith y flwyddyn; ond mae angen 15 gwaith yn fwy o chwynladdwr na phan gaiff ei roi ar y dail. Os ydy'r clymog yn tyfu ynghanol planhigion prin a/neu ddymunol neu os rhagwelir glaw, mae chwistrellu'r coesyn yn ddull da o dargedu'r chwynladdwr.
3. **Ar y dail unwaith y flwyddyn –** rhoi cymaint ag a ganiateir (gweler label y cynnyrch) unwaith y flwyddyn; **ddim yn gweithio cystal â thrin y dail bob chwe mis a chwistrellu'r coesyn ond mae angen llai o lafur ac mae'n fwy cynaliadwy.**

- Glud chwistrellu (enhancer) – defnyddiwch lud chwistrellu (adjuvant/surfactant) fel bod y chwynladdwr yn gallu gwrthsefyll glaw.
- Gallwch barhau i chwistrellu tan fis Tachwedd os bydd y tywydd yn ffafriol (h.y. mwy na 50% o'r dail gwyrdd yn para'n sownd yn y planhigyn).
- Peidiwch â defnyddio mwy nag a nodir ar label y cynnyrch – byddai hynny'n anghyfreithlon. Hefyd, nid yw rhoi mwy na'r trothwy, dôs uwch a/neu driniaethau amlach yn gwella'r canlyniadau.
- **Ni wnaeth yr un o'r triniaethau ym mhrofion astudiaeth Jones et al (2018) gael gwared ar y clymog yn llwyr –** er bod glyffosad yn cynnig rheolaeth ardderchog tymor hir.

## *Integredig*

- Pan gyfunwyd glyffosad â dulliau corfforol neu chwynladdwyr eraill, gwelwyd bod y canlyniadau'n waeth na phe bai glyffosad wedi'i ddefnyddio ar ei ben ei hun.
- Os bydd y clymog yn lledaenu neu'n gwasgaru ar dir cymydog yn sgil cynnal triniaethau aneffeithiol, **gellid dwyn achos troseddol neu sifil yn eich erbyn.**

## *A oes angen caniatâd?*

- Rhaid cael caniatâd perchennog y tir cyn dechrau trin clymog ar dir preifat neu gyhoeddus.
- Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn trin clymog mewn neu ger dŵr gan gynnwys mannau codi dŵr, ffosydd draenio, nentydd, afonydd, pyllau, llynnoedd, cronfeydd, camlesi a ffosydd sych.
- Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CNC cyn dechrau trin clymog ar safle gwarchodedig/dynodedig (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA).

## *Tystysgrifau defnyddio*

Rhaid i unrhyw un sy'n rheoli clymog â chwynladdwr feddu ar dystysgrif NPTC neu ddyfarniad Lefel 2 Lantra ar ddefnyddio offer llaw i wasgaru chwynladdwr (QCF) (PA6). Mae hwn yn ofyn cyfreithiol. Rydym yn argymell y canlynol:

- **PA6A (151)** Operating Pedestrian Handheld Applicators Fitted with Hydraulic Nozzles or Rotary Atomisers to Apply Pesticides to Land (PA6A)
- **PA6AW (152)** Operating Pedestrian Handheld Applicators fitted with Hydraulic Nozzles or Rotary Atomisers to Apply Pesticides to or Near Water (PA6AW)
- **PA6INJ (156)** Operating Handheld Pesticide Injection Equipment (PA6INJ)

Nid yw'r ddogfen hon yn esbonio'r offer amddiffyn personol (PPE) sydd ei angen wrth ddefnyddio offer chwynladdwyr neu sut i storio na chael gwared ar chwynladdwyr, gan y cewch yr wybodaeth ddiweddaraf i gyd yn yr NPTC neu'r cwrs Lantra perthnasol.

### *Chwistrell cefn*

Mae chwistrell cefn yn ysgafn ac yn hawdd ei gario, a dyma'r erfyn mwyaf cyffredin ar gyfer rheoli'r clymog. Defnyddiwch frand sy'n uchel ei barch i sicrhau bod gennych fath diogel, dibynadwy, sydd â digon o gapasiti ac yn hawdd ei ddefnyddio. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, dylech ddefnyddio chwistrell cefn sydd â braich telesgopig er mwyn ichi allu trin planhigion tal. Defnyddiwch drwyn sy'n chwistrellu dafnau canolig eu maint (e.e. y Cooper-Pegler blue flat fan nozzle) i sicrhau bod cymaint o'r chwynladdwr â phosibl yn mynd ar y planhigyn heb fawr o ddrifft.

### *Monitro*

Mae'n bwysig monitro'r gwaith i wneud yn siŵr eich bod yn para i drin tra bo angen i sicrhau rheolaeth effeithiol. Bydd cadw cofnod ffotograffig digidol llawn yn help i fonitro'r prosiect, yn enwedig os yw'r ardal yn un fawr. Tynnwch luniau yr un pryd â'r driniaeth ym mlynyddoedd cynta'r rhaglen. Unwaith y bydd gennych reolaeth, ymwelwch â'r safle a thynnu ffotos bob yn ail flwyddyn i weld a oes aildyfiant. Gall clymog sy'n aildyfu ar ôl triniaeth â glyffosad edrych yn wahanol iawn i blanhigyn iach – dyma enghreifftiau cyffredin yn Lluniau A-C.










## Cyllid

Mae diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyllid yn rhoi trosolwg o'r arian sydd ar gael, gan amryw ffynonellau, i grwpiau ac elusennau ar gyfer prosiectau ac achosion amgylcheddol.

**Nodwch mai er gwybodaeth yn unig y mae'r daflen hon. Os oes gennych unrhyw bryderon cyfreithiol penodol ynghylch Clymog Japan, rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol.**


## Datganiad hawlfraint

**Advanced Invasives Ltd biau hawlfraint y delweddau yn y ddogfen hon -**

**© Advanced Invasives Ltd | 2020. Cedwir pob hawl.**

Gwaherddir ailddosbarthu neu ailgynhyrchu unrhyw ddelweddau yn y ddogfen hon, ac eithrio'r canlynol:

- cewch argraffu neu lawrlwytho delweddau i ddisg caled lleol at eich defnydd chi ac at ddibenion anfasnachol yn unig
- cewch anfon copi o'r cynnwys at drydydd partïon unigol ar yr amod eich bod yn cydnabod bod y deunyddiau'n dod o'r ddogfen hon

Ni chewch, heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol gennym, ddosbarthu neu ddefnyddio'r delweddau at ddibenion masnachol. Ni chewch drosglwyddo'r delweddau na'u storio ar unrhyw wefan arall neu fath arall o system adfer electronig.



## Mae'r daflen wybodaeth hon wedi cael ei llunio ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Advanced Invasives Ltd

ADVANCED INVASIVES


## Wrth ddyfynnu cyfeiriwch at:

Jones D (2020) Gwybodaeth i fudiadau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru: Rheolaeth Ymarferol ar Glymog Japan. Llywodraeth Cymru.

## Ffynonellau a ddyfynnwyd


**1 Advanced Invasives** *Caerphilly CBC* **(2019) 2 Aguilera et al.** *Biol. Invasions* **(2010) 3 Akeroyd** *BSBI* **(2014) 4 Bailey et al.** *Biol. Invasions* **(2009) 5 Bailey & Conolly** *Watsonia* **(2000) 6 Beerling et al.** *J. Ecol* **(1994) 7 Brabec & Pyšek** *Folia Geobot.* **(2000) 8 Dassonville et al.** *Ecoscience* **(2008) 9 Dawson & Holland** *Hydrobiologica* **(1999) 10 Environment Agency (UK) (2013) 11 Fogelman et al.** *J. Freshw. Ecol.* **(2018) 12 Gerber et al.** *Biol. Conserv* **(2008) 13 Grime** *John Wiley & Sons Ltd* **(2001) 14 Hartwig & Kiviat** *Hudsonia Report* **(2009) 15 Hejda et al.** *J. Ecol* **(2009) 16 HM Government (2015) 17 Hocking et al.** *BSBI* **(2019) 18 Jones** *PhD Thesis* **(2015) 19 Jones et al.** *Biol. Invasions* **(2018) 20 Jones & Eastwood** *Pest Manag. Sci.* **(2019) 21 Kabat et al.** *CEBC* **(2006) 22 Kidd** *Pestic. Outlook* **(2000) 23 Maerz et al.** *Biodivers. Conserv.* **(2005) 24 Parepa et al.** *Biol. Invasions* **(2013) 25 Parepa & Bossdorf** *Biol. Invasions* **(2016) 26 Seeney et al.** *Biol. Invasions* **(2019) 27 Stace** *C&M Floristics* **(2019) 28 Urgenson** *MSc Thesis* **(2006) 29 Vanderhoeven et al.** *Ann. Bot.* **(2005) 30 Williams et al.** *CABI* **(2010) 31 You et al.** *PLoS ONE* **(2014)**